

CIC

Bydd cyfarfodydd CIC yn ail ddechrau yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener nesaf, Medi 14. Gobeithiwn weld yr un criw o ieuentid yn eu hôl a bydd croeso cynnes i rai newydd ddod atom.

RhDDC (GDPR)

Tua diwedd mis Mai roedd sôn mawr am y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a ddaeth i rym ddiwedd y mis hwnnw. Roedd pob math o gwmnïau a mudiadau yn cysylltu â ni i ofyn am ein caniatâd iddyn nhw gadw ein henw a'n cyfeiriad ar eu rhestr o bobl a oedd i dderbyn llythyr neu ohebiaeth oddi wrthynt.

Mae'r rheoliadau hynny'n effeithio ar yr eglwysi fel ar bob mudiad elusennol a chwmi arall. Mae hefyd yn effeithio ar *Gronyn*. Yn ôl y rheoliadau newydd hyn, ni ddylem gyhoeddi enw a chyfeiriad pobl heb gael eu caniatâd i wneud hynny. O'r cychwyn cyntaf rydym wedi cyfeirio yn Gronyn at aelodau sydd yn yr ysbyty, yn bennaf er mwyn i'w cyd-aelodau gofio amdanynt yn eu gweddiâu. Ofnir felly na fydd modd dal ymlaen i gynnwys rhestr o enwau cleifion, ond gobeithio y byddwn yn parhau i weddio dros ein gilydd.

Y mis nesaf - Deiniolen

Medi 16

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Medi 23

5.00 p.m. - Y Parchg Cledwyn Williams, Bangor

Medi 30

5.00p.m.—Mr Thomas Alun Williams, Caernarfon

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Medi 16: Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Medi 11: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Wener, Medi 14: CIC am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Medi 9: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Eifion W Williams, Llanfairfechan. Bydd yr Ysgol Sul am 11.00 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Sul, Medi 16: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dylan Rhys ac am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Medi 16: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Gareth Edwards, Cyffordd Llandudno.

REHOBOTH

Dydd Sul, Medi 16: Ni chynhelir oedfa.

Y mis nesaf - Llanberis

Medi 16

10.00 a.m. - Y Parchg Eifion Williams, Llanfairfechan

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Medi 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Medi 30

10.00 a.m. - Mr Dewi Jones, Pwllheli

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Gronyn

Rhif 765
09 Medi, 2018



Car bach glas

Un o'r ystrydebau y mae pobl yn eu hail adrodd wrth iddyn nhw heneiddio yw bod athrawon a phlismyn yn mynd yn iau bob dydd. Boed hynny'n wir ai peidio, mae ceir yn sicr yn mynd yn fwy. Fe'm hatgoffwyd o hynny y dydd o'r blaen wrth i mi weld Ford Escort (Marc 2) bach glas yn Llanberis. 'Bach', meddwn, er na wnes i erioed feddwl amdano fel car bach pan oeddwn berchen ar yr union fath o gar bron i ddeugain mlynedd yn ôl. Yr un lliw glas ag oedd gan blismyn y cyfnod oedd fy nghar i, a dyna'r car a gafodd ei ddwyn yn Nulyn pan oedd Falmai a finnau ar ein ffordd adref o'n mis mêl. Mi wnaethon ni gyfnwid y car hwnnw am un newydd ymhen blwyddyn neu ddwy.

Gwerthwyd Ford Escort (Marc 2) tebyg iddo am £93,000 mewn ocsiwn yr wythnos ddiwethaf. Lliw glas oedd hwnnw hefyd, er nad yr union las â'n car ni. Tipyn o bris, ac eto pris bach o'i gymharu â'r £340,000 a dalwyd am y car hwnnw pan werthwyd o ddiwethaf, yn 2005. Does yna ddim byd arbennig am y car: doedd o ddim mewn cyflwr gwych; doedd o ddim yn un o'r ceir prin sydd ond wedi teithio ychydig o filltiroedd erioed. Mi dalwyd yr arian mawr amdano am mai dyma gar Karol Józef Wojtyła hyd nes i'r gŵr hwnnw ddod yn Bab Ioan Paul II yn 1978.

Go brin fod y car hwn werth yr arian mawr. Car bach cyffredin ydi o, er i mi weld un erthygl yn cyfeirio ato fel 'sacred car'! Nid yw'r ffaith fod y Pab

wedi eistedd ynddo yn ei wneud yn sanctaidd. Talp o fetel yw'r car hwn fel pob car arall, pwy bynnag fu'n ei yrru am flynyddoedd.

Anodd ar brydiau yw sylweddoli nad yw rhai pethau yn 'sanctaidd' ynddynt eu hunain. Soniwn am dir sanctaidd ac adeiladau sanctaidd; a chlywais am bobl yn 'cysegru' llestri a dilladau a hyd yn oed liain bwrdd. Nid pethau sy'n 'sanctaidd', ond pobl. Pobl sy'n cael eu 'cysegru' neu eu neilltuo i waith arbennig er mwyn yr Efengyl ac er mwyn yr Arglwydd. Ond pwysicach na hynny hyd yn oed, pobl sy'n cael eu 'sancteiddio' trwy gael eu gosod ar wahân i'r byd wrth iddynt gredu yn Iesu Grist a dod yn rhan o deulu Duw (gan ddod felly i blith y 'saint').

Os medrwn sôn o gwbl am 'gysegru' pethau, mor bwysig yw cofio mai'r defnydd a wneir o'r pethau hynny sy'n 'gysegredig' yn hytrach na'r pethau eu hunain. Yn yr ystyr hwnnw, gellid o bosibl sôn am 'gar cysegredig' o ran y defnydd a wnaed ohono gan Karol Wojtyła yn ei waith a'i hamddena fel un yn gwasanaethu Duw. Ond nid oedd, ac nid yw'r car hwnnw ynddo'i hun yn sanctaidd. Yn yr un modd, gallwn ddweud nad yw ein hadeiladau eglwysig, hyd yn oed yr harddaf a'r mwyaf gosgeiddig ohonynt, yn 'sanctaidd' ynddynt eu hunain. Mae'n werth cofio mai'r hyn a wnawn â hwy, y defnydd a wnawn ohonynt i addoli a dyrchafu Duw sy'n sanctaidd ac yn rhoi iddynt eu harbenigrwydd.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn (A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams, Rachub.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Glenys Jones, Pwllheli.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at y rhai ohonoch sydd heb fod mewn iechyd da ar hyn o bryd. Gweddiwn dros ein gilydd yn ein gwahanol amgylchiadau.

"Yn dy drugaredd, Dduw Dad, cynnal ni a'n hanwyliaid ym mhob gofid a phoen."

Balm o Salm



'Yr oedd Moses ac Aaron ymhlith ei offeiriaid, a **BYW Y BEIBL** Samuel ymhlith y rhai a alwodd ar ei enw; galwasant ar yr ARGLWYDD, ac atebodd hwy. Llef-aodd wrthyt mewn colofn gwmwl; cadwasant ei dystiolaethau a'r ddeddf a roddodd iddynt. O ARGLWYDD, ein Duw, atebaist hwy; Duw yn maddau fuost iddynt, ond yn dial eu camweddau. Dyrchafwch yr ARGLWYDD ein Duw, ymgrymwech yn ei fynydd sanctaidd — sanctaidd yw'r ARGLWYDD ein Duw' (Salm 99:6-9).

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mrs Lynne Warner, 11 Rhes y Faenol, Deiniolen yn Eglwys Llandinorwig ac Amlogfa Bangor ddydd Llun diwethaf, Medi 3 dan arweiniad y Gweinidog. Bu farw Lynne yn Ysbyty Gwynedd, ddydd Mercher, Awst 22 yn 48 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i gŵr Jason a'u plant Steffan a Ffion, ac â Shannon a Tomos; ei rhieni Jackie a Nellie Parry, ei brodyr Owen, Ieuan ac Idris, ac â Craig, a Bethan a Cai a Gruff, a'r holl deulu yn eu colled fawr. Roedd Lynne yn berson annwyl dros ben. Anaml iawn, iawn y gwelid hi heb wên gynnes, hardd ar ei hwyneb. Roedd yn berson hwyliog a chyfeillgar, a chanddi lawer o ffrindiau a oedd yn mwynhau ei chwmmi ac yn meddwl y byd ohoni. Ei theulu oedd canolbwynt ei bywyd, ac yr oedd ei gofal cariadus am ei theulu mor amlwg i bawb. Ers pedair blynedd bu'n gweithio yn nerbynfa'r optegwyr Barnett Pepper yng Nghaernarfon, ac yn amlwg yn uchel ei pharch ymhlith y staff a'r cwsmeriaid yno.

Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth yn Eglwys Llandinorwig gan y Parchg Reuben Roberts, Bontnewydd, a chafwyd

teyrngedau gan Jason, Sandra Morris a Gwyn Parri. Annette Bryn Parri oedd yr organydd.

Cymdeithas Undebol

Cafwyd cyfarfod cyntaf tymor newydd Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch nos Fawrth diwethaf. Llywyddwyd gan Mr Gareth Jones. Croesawyd pedair o ferched a fu'n aelodau o barti Alawon Llŷn, Alaw, Meirir, Marec ac Elin, ac yn ogystal â chanu gyda'i gilydd fe gafwyd ganddynt unawdau a darlleniaid o stori.

Diolch yn fawr iawn i Gareth am drefnu rhaglen ar gyfer y tymor newydd. Diolch yn arbennig hefyd i bawb a fu'n paratoi'r wledd a gafwyd i ddiweddu'r noson.

Cynllun Efe

Bydd Ymddiriedolwyr Cynllun Efe yn cyfarfod yng Nghapel Caeathro bnawn yfory i drafod y gwaith gyda'n gweithiwr newydd, Susan Williams. Cyn hynny, bydd y Pwyllgor Rheoli, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Gaersalem Caernarfon a Scripture Union Cymru yn cyfarfod. Fel y soniwyd yr wythnos ddiwethaf, yr oeddwn yn hynod o falch o fedru penodi Susan i'r swydd hon yn ystod yr haf. Gwyddom ei bod yn edrych ymlaen yn eiddgar at gael gwasanaethu eglwysi ac ysgolion y fro yn enw Iesu Grist ac er lles yr Efengyl. Dymunwn bob bendith a nerth i Susan yn ei gwaith newydd.

Llongyfarchiadau

Braf iawn yw cael rhannu'r newydd da â chi fod Andrew Settatree, cyn weithiwr Cynllun Efe wedi yr wythnos ddiwethaf. O Rugby yng Nghanolbarth Lloegr y daw ei ddyweddi, Heather Cartwright, ond mae'n byw a gweithio yn ardal Y Rhyl ar hyn o bryd. Wrth eu llongyfarch ar ran pawb ohonom sy'n adnabod Andrew, dymunwn iddynt fendith Duw a phob hapusrwydd. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da.

Coffad

Fel y soniwyd yr wythnos ddiwethaf bydd rhifynnau nesaf *Gronyn* yn cynnwys coffad i'r aelodau a fu farw ers i Gronyn gael ei gyhoeddi ddiwethaf.

Miss Ciss Rowlands

Bu farw Miss Ciss Rowlands, Corlan y Bont, Deiniolen yn Ysbyty Gwynedd, ddydd Mercher, Awst 8 yn 91 mlwydd oed; a chynhaliwyd gwasanaeth ddydd ei hangladd, ddydd Iau, Awst 16, yng nghartref ei heffail Jennie, ac Amlogfa Bangor. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w chwaer Mrs Jennie Williams a'r teulu cyfan yn eu colled.

Bu Ciss Rowlands yn aelod ffyddlon o'r eglwys yng Nghefnywaun ar hyd ei hoes. Roedd i'r teulu gysylltiad clos â'r eglwys o'r cychwyn mai hen daid iddi, y Parchg William Rowlands, oedd gweinidog cyntaf Cefnywaun. Daliodd Ciss i ddod i'r oedfa yng Nghefnywaun ac yn fwy diweddar yn Ebeneser nes iddi fethu â dod oherwydd llesgedd. Bu'n gymydog da a chymwynasgar i lawer, ac yn driw i'w theulu a'i ffrindiau i gyd. Roedd yn wraig annwyl, a braf bob amser oedd bod yn ei chwmmi a chael sgwrs â hi. Bu'n barod iawn ei help i mi fel ei gweinidog trwy roi gwybod i mi am gymdogion ac aelodau a fyddai yn yr ysbyty neu heb fod yn dda eu hiechyd.

Roedd yn gymeriad cryf a phenderfynog, a hynny mae'n debyg a'i galluogodd i aros yn ei chartref, lle cawsai ei geni a'i magu, i'r diwedd, gan ddychwelyd yno hyd yn oed wedi iddi'r difrod llifogydd a gafodd dro'n ôl.

Gwerthfawrogai yn fawr gefnogaeth a chymorth teulu, cymdogion a gofalwyr, a byddai bob amser yn siarad yn annwyl am ei theulu. Bydd yn chwith hebddi, a bydd yn sier golled fawr ar ei hôl o fewn y gymdogaeth yn Neiniolen.